| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Teitl yr Adroddiad** | Prosiect Cinio am Ddim |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 8 Rhagfyr 2022 |
| **Swyddog Perthnasol** | Owen Owens,  Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg |
| **Aelod Cabinet Perthnasol** | Cynghorydd Beca Brown |

**1. Cefndir**

1.1. Ym mis Rhagfyr 2021 cyhoeddodd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg Llywodraeth Cymru bod £25m o arian cyfalaf yn cael ei fuddsoddi yng ngheginau a neuaddau bwyta ysgolion Cymru fel rhan o'r cynlluniau i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant cynradd Cymru dros y tair blynedd nesaf. Mae'r polisi yn rhan o'r gytundeb cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Derbyniwyd llythyr grant yn Chwefror 2022 yn clustnodi £1,121,603 o arian cyfalaf i gyflawni'r gofyn i ymestyn yr hawl i brydau ysgol am ddim i holl ysgolion cynradd Gwynedd gyda'r angen i wario'r swm erbyn 31 Mawrth 2022.

1.2. Yn Awst 2022 cymeradwyodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg swm ychwanegol o £35 miliwn o gyllid cyfalaf i gefnogi'r gwaith, gyda dyraniad pellach o £1,570,244 ar gael i Wynedd.

**2. Diweddariad**

2.1. Yn dilyn y cyhoeddiad gwreiddiol, adolygwyd ceginau a gofod bwyta pob ysgol gynradd yng Ngwynedd gan adnabod pa geginau oedd angen uwchraddio'u hoffer mawr megis poptai a pheiriannau golchi llestri yn ogystal ag offer ysgafn.

2.2. Casglwyd barn rhieni i weld faint oedd yn bwriadu manteisio ar y cynllun er mwyn cael trosolwg cyn addasu ein seilwaith.

2.3. O ran yr offer mawr, mae 28 popty combi newydd wedi eu gosod a 17 peiriant golchi llestri, gyda rhagor i'w gosod cyn y Nadolig ac yn fuan yn y flwyddyn newydd.

2.4. Daeth i'r amlwg bod angen estyniad mewn sawl safle i ymdopi gyda'r cynnydd posib yn y nifer fyddai'n bwyta pryd poeth gan fod unai'r gegin neu'r gofod bwyta yn anaddas a rhy fach. Mae'r ysgolion canlynol wedi derbyn estyniad dros wyliau'r haf / hanner tymor hydref:

- o Ysgol Hendre
- o Ysgol Bethel
- o Ysgol Bro Lleu
- o Ysgol Maenofferen

2.5. Rydym wedi adolygu pa ysgolion all ddarparu cinio i'r holl ddisgyblion fel mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, petai awydd gwleidyddol i hyn ddigwydd yn sgil yr argyfwng costau byw rydym yn wynebu. 69% o'n safleoedd sydd yn gallu darparu i bawb erbyn Ionawr 2023 ar hyn o bryd. Gweler **Atodiad A**, rhestr o'r ysgolion sydd yn gallu / ddim yn gallu cynnig prydau poeth i bawb.

2.6. Dyma'r prif resymau pam nad yw pob ysgol mewn sefyllfa i allu darparu cinio i bawb ar hyn o bryd:

- Popty combi / offer mawr ddim wedi cyrraedd
- Angen penodi staff cegin newydd
- Angen cynyddu oriau staff cegin
- Estyniadau i'r gofod bwyta / gegin heb eu cwblhau

## 3. Camau Nesaf

3.1. Bydd angen gosod gweddill yr offer mawr sydd ar archeb dros yr wythnosau nesaf yn ddibynnol ar amserlen derbyn yr offer a chwblhau'r gwaith paratoi ar safle.

3.2. Estyniadau sydd ar y gweill:

a) Ysgol Llanrug – estyniad ar y neuadd (gofod bwyta). Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o brosiect Cyflwr ac Addasrwydd Gwedd 2. Disgwylir cyflawni'r gwaith erbyn Ionawr 2023.

b) Ysgol Y Gelli – estyniad i'r neuadd fwyta. Sylfaeni wedi eu cwblhau a rhagwelir cwblhau'r gwaith erbyn Mawrth 2023.

c) Ysgol Waunfawr - cais cynllunio wedi cael ei derbyn a bydd angen mynd allan i dendr dros yr wythnosau nesaf.

d) Ysgol Chwilog – yn sgil arian ychwanegol gan LlC, bydd estyniad yn cael ei wneud i'r gofod bwyta. Cynllun wedi ei baratoi a bydd angen cyflwyno cais cynllunio.

e) Ysgol Felinheli - yn sgil arian ychwanegol gan LlC, bydd estyniad yn cael ei wneud i'r gofod bwyta. Yn y broses o wneud cynllun a bydd angen cyflwyno cais cynllunio.

## 4. Manteision y Cynllun

Ers mis Medi 2022, dyma drosolwg o'r niferoedd sydd yn gymwys sydd yn cymryd mantais o'r cynllun cinio am ddim (cyfartaledd wythnosol). ***Nid yw'r data yn cynnwys Ysgolion Arbennig na Ysgolion Gydol Oes ar hyn o bryd.***

| Mis | Nifer disgyblion Derbyn a Blwyddyn 1 | Nifer disgyblion yn dewis cinio am ddim – UPFSM | Nifer disgyblion yn dewis cinio am ddim – EFSM | % disgyblion yn dewis cinio am ddim o dan y ddau gynllun |
|---|---|---|---|---|
| Medi | 2243 | 1305 | 271 | 70% |
| Hydref | 2257 | 1227 | 257 | 66% |

Wrth wireddu'r cynllun cinio am ddim i holl blant cynradd Gwynedd, bydd yn gyfrwng i gyfrannu at:

- fynd i'r afael â thlodi / problem plant yn mynd yn llwglyd
- sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol a lleihau anghydraddoldeb
- dileu stigma
- arferion bwyta ac agweddau iach.

## 5. Risgiau

a) Amserlen dynn rhwng derbyn y poptai a pheiriannau golchi llestri a'u gosod cyn diwedd Mawrth 2023.

b) Methu gwario'r grant ychwanegol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. *Er hyn mae amodau'r grant yn nodi bod modd llithro'r gwariant i Haf 2023 o dan rhai amgylchiadau.*

c) Diffyg cyflenwad pŵer digonol yn rhai o'n hysgolion yn achosi oediad i archebu nwyddau. Rydym yn parhau i ddisgwyl cadarnhad gan Scottish Power ar gyfer ambell safle.

d) Cyflenwyr trydan y Cyngor yn araf iawn yn diweddaru mesurydd trydan. Rhwystr pellach i osod offer mewn ambell safle.

e) Cost refeniw ychwanegol i gyfarch yr angen am fwy o staff dros amser cinio.

f) Recriwtio staff ychwanegol (hyn yn heriol ar hyn o bryd)

g) Costau bwyd ychwanegol – prisiau bwyd wedi codi'n ddiweddar

## 6. Amserlen

6.1. Ers mis Medi 2022, mae rhai o blant ieuengaf ysgolion cynradd Gwynedd, sef Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1, yn cael prydau ysgol am ddim wrth i'r polisi gael ei gyflwyno'n raddol. Y bwriad yw ymestyn y cynnig i Flwyddyn 2 erbyn Ionawr 2023 ac yna Blwyddyn 3,4,5 a 6 erbyn Medi 2023.

| Blwyddyn Ysgol | Amserlen Darparu Cinio am Ddim |
|---|---|
| Blwyddyn Derbyn | Medi 2022 |
| Blwyddyn 1 | Medi 2022 |
| Blwyddyn 2 | Ionawr 2023 |
| Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 | Medi 2023 |

## 7. Uwchradd

7.1. Nid oes gwaith penodol wedi cael ei wneud gan y Tîm Arlwyo i asesu ceginau na gofod bwyta yn yr uwchradd. Mae'r rhaglen waith i ddarparu bwyd i'r cynradd yn un uchelgeisiol, a dyma fydd blaenoriaeth yr Adran Addysg am y misoedd nesaf i sicrhau bydd pob plentyn yn y cynradd yn cael cinio am ddim erbyn Medi 2023.

7.2. Nid oes capasiti na chyllid ar gael ar hyn o bryd i roi sylw penodol i'r uwchradd. Petai gyhoeddiad yn dod gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r sefyllfa, byddai'r Adran Addysg yn croesawu'r cynllun.

**Atodiad A – Rhestr Ysgolion a'u gallu i ddarparu cinio i'r ysgol gyfan erbyn Ionawr 2023**

*61 (69%) safle allan o 88 o'n safleoedd yn gallu darparu i bawb erbyn Ionawr 2023.*

| Ysgol | Y gallu i fwydo pob blwyddyn erbyn Ionawr 2023 |
|---|---|
| Gwaun Gynfi | Na |
| Nefyn | Na |
| Llanrug | Na |
| Abererch | Na |
| Beddgelert | ✓ |
| Bethel | Na |
| Bodfeurig | ✓ |
| Borthygest | ✓ |
| Brynaerau | Na |
| Y Gelli | Na |
| Penybryn | ✓ |
| Treferthyr | Na |
| Chwilog | Na |
| Crud y Werin | ✓ |
| Dolbadarn | Na |
| Edern | ✓ |
| Felinwnda | DIM CEGIN |
| Bro Plenydd | Na |
| Garndolbenmaen | ✓ |
| Llanbedrog | Na |
| Llangybi | ✓ |
| Llanllechid | Na |
| Llanllyfni | Na |
| Morfa Nefyn | DIM CEGIN |
| Baladeulyn | ✓ |
| Nebo | ✓ CLUDO |
| Penisarwaen | ✓ |
| Bro Lleu | Na |
| Pentreuchaf | ✓ |
| Rhiwlas | ✓ |
| Rhosgadfan | ✓ |
| Rhostryfan | Na |
| Sarn Bach | ✓ |
| Eifion Wyn | ✓ |
| Talysarn | Na |
| Y Gorlan | Na |
| Yr Eifl | ✓ |
| Tudweiliog | ✓ |
| Waunfawr | Na |
| Glancegin | ✓ |
| Yr Hendre | Na |
| Bontnewydd | Na |

| | |
|---|---|
| Y Garnedd | ✓ |
| Cymerau | Na |
| Abercaseg | Na |
| Y Felinheli | ✓ |
| Y Traeth | ✓ |
| Dyffryn Dulas | ✓ |
| Dyffryn Ardudwy | ✓ |
| Bro Cynfal | ✓ |
| Edmwnd Prys | ✓ |
| Llanbedr | ✓ |
| Y Garreg | ✓ |
| O. M. Edwards | ✓ |
| Manod | ✓ |
| Pennal | ✓ |
| Cefn Coch | ✓ |
| Talsarnau | ✓ |
| Tanygrisiau | ✓ |
| Penybryn, Tywyn | Na |
| Bro Hedd Wyn | ✓ |
| Bro Tryweryn | ✓ |
| Tan y Castell | ✓ |
| Ffridd y Llyn | Na |
| Maenofferen | ✓ |
| Hirael | Na |
| Craig y Deryn | ✓ |
| Bro Llifon | ✓ |
| Pont y Gôf | ✓ |
| Maesincla | ✓ |
| Y Faenol | ✓ |
| Foel Gron | ✓ |
| Llandygai | ✓ |
| Llandwrog | ✓ |
| Llanystumdwy | ✓ |
| Tregarth | ✓ |
| Cae Top | ✓ |
| Santes Helen | ✓ |
| Ein Harglwyddes | ✓ |
| BRO IDRIS PRIF SAFLE | ✓ |
| Bro Idris CYNRADD | Na |
| DINAS MAWDDWY | ✓ |
| FRIOG | ✓ |
| RHYDYMAIN | ✓ |
| LLANELLTYD | ✓ |
| Godre'r Berwyn | ✓ |
| Ysgol Pendalar | ✓ |
| Ysgol Hafod Lon | ✓ |